

Pecyn Dysgu
Rhagfyr 2012

Theatr Gerddorol



Llun: Taith y DU o The Phantom of the Opera. Llun gan Alistair Muir. ©

Cyflwyniad

Mae Theatr Gerddorol yn genre eang gyda nifer o wahanol feysydd i'w harchwilio. Mae'r pecyn dysgu yma wedi'i greu i roi braslun i chi o'r genre ac mae wedi'i ddylunio i unrhyw un ei ddefnyddio, yn y cartref, yn yr ysgol neu hyd yn oed os oes gennych ychydig o ddiddordeb yn y pwnc. Mae ein Pecyn Dysgu Theatr Gerddorol yn cefnogi ein Hwylthnos Ddysgu Sioeau Cerdd sydd wedi'i hysbrydoli gan *The Phantom of the Opera* a fydd yn cael ei berfformio yn ein Theatr Donald Gordon y Nadolig yma.



Cynnwys

Theatr Gerddorol	tud. 3-6
The Phantom of the Opera	tud. 7-8
Cymru yn y West End	tud. 9
Cyfweliad byr gyda Sharon Calcutt – Rheolwr Llwyfan West End	tud.10



Llun: *Oliver!* Llun gan Alistair Muir. ©

Theatr Gerddorol



Llun: Taith y DU o *American Idiot*. ©



Llun: Taith y DU o *Dirty Dancing*. ©

Mae Theatr Gerddorol, neu Sioeau Cerdd, wedi bod yn rhan o'n diwylliant poblogaidd ers dechrau'r 20fed Ganrif.

Mae Sioeau Cerdd yn tueddu i ddefnyddio mwy o gerddoriaeth a chaneuon na geiriau llafar i adrodd stori ddramatig. Mae Sioeau Cerdd yr un mor boblogaidd heddiw ag yr oedden nhw ar y cychwyn ac mae'n genre o theatr sydd yn parhau i dyfu.

West End Llundain oedd cartref gwreiddiol y Sioe Gerdd, ond yn fuan iawn ymunodd Broadway Efrog Newydd yn yr hwyl ac mae'r ddau le yn parhau yn enwog am eu theatrau.

'Pwy allai wrthsefyll atyniad dawnswyr 42nd Street, neu'r hetiau aur yn Chorus Line. Mae gennyh holl liwiau llachar siaced Joseph a baneri coch a du y chwyldro, enfys i'w dringo a dirgelion i'w datrys. Mae Mary Poppins yn hedfan dros eich pen. Mae siandeliers yn syrthio. Bydd llew wedi ei wneud o linyr yn torri eich calon a phypedau yn syrthio mewn cariad dros dapiau wedi'u cymysgu. Mae pentrefi'n diflannu am ganrifoedd ar y tro. Bydd Kate yn bendant yn cael ei chusannu. Mae trenau'n rholio heibio. Mae Argentina wedi ei cholli a'i hennill. Dydi gwyrachod ddim bob amser yn ddrwg ac mae Dorothy wedi cael esgidiau newydd...'

Sharon Calcutt – Rheolwr Llwyfan y West End ar pam y mae theatr gerddorol mor boblogaidd. Cewch glywed rhagor gan Sharon yn nes ymlaen.

Y caneuon yw un o'r elfennau pwysicaf ym mhob cynhyrchiad Theatr Gerddorol. Caiff y gynulleidfa eu denu gan y caneuon gwych, y caneuon y byddwch yn eu canu'n uchel yn y theatr a'r rhai sy'n aros yn y cof am weddill yr wythnos.

Mae nifer o wahanol fathau o ganeuon mewn Sioeau Cerdd sy'n rhan annatod o strwythur y plot:

Caneuon Actol – mae'r rhain yn gymorth i ddatblygu'r plot a symud ymlaen i olygfeydd gwahanol.

Caneuon Cymeriadau – diben y rhain yw ein helpu i ddysgu rhagor am y gwahanol gymeriadau. Gall y cymeriadau ddweud wrthyn ni sut y maen nhw'n teimlo neu rhoi rhagor o wybodaeth gefndir inni amdany'n nhw'u hunain yn y caneuon yma.

Caneuon Cynhyrchu – mae'r rhain fel rheol yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cwmni neu'r cwmni cyfan. Yn aml maen nhw ar ddechrau neu ar ddiwedd golygfa newydd neu maen nhw'n dweud wrthyn ni am newid mawr sydd wedi digwydd fel lleoliad newydd, er enghraifft

Mae sioeau cerdd fel rheol yn ysblennydd. Yn aml, mae ganddyn nhw gyllidebau mwy na ffurfiau eraill o theatr ac felly gall y cwmnïau ddefnyddio eu dychymyg o ran effeithiau, gwisgoedd a setiau. Gallwch weld popeth mewn Sioe Gerdd o eliffant maint go iawn yn y sioe gerdd *The Lion King*, i gar yn hedfan yn *Chitty Chitty Bang Bang* a hyd yn oed Gollum yn *The Lord of the Rings*, sy'n gallu crocian i fyny ac i lawr wal fertigol.

Mae nifer o wahanol fathau o Sioeau Cerdd ac maen nhw'n gallu darganfod ysbrydoliaeth o bron unrhyw le. Mae'r amrywiaeth yma'n golygu bod rhywbeth yn debygol o fod at ddant pawb ac efallai mai dyna pam y mae'n ffurf mor boblogaidd o gelfyddyd.

Mae'n hawdd anghofio weithiau, er mai Charles Dickens a grëodd Oliver a'i ffrindiau carpiog, wnaeth e ddim ysgrifennu'r caneuon 'Food Glorious Food' na 'Consider Yourself'. Mae'n anodd hefyd sylweddoli bod Andrew Lloyd Webber wedi seilio *The Phantom of the Opera* ar nofel Ffrengig a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym 1909 a bod Maria Von Trapp yn *The Sound of Music* yn fenyw go iawn, nid yn gymeriad a grëwyd gan Rodgers a Hammerstein. Ond mae'r ychydig enghreifftiau hyn yn dangos inni sut y gall bron unrhyw beth fod yn ysbrydoliaeth i sioe gerdd.

Yn ogystal â nofelau, mae ffilmiau, cerddi a hyd yn oed cerddoriaeth boblogaidd wedi'u troi'n sioeau cerdd. Mae nifer o'n hoff ffilmiau wedi eu haddasu i'r llwyfan ac nawr ar gael i'w mwynhau fel profiadau perfformio byw. Mae *Spider-Man*, *Sister Act* a hyd yn oed *The Lion King* yn rhai o sioeau mwyaf adnabyddus heddiw.



Llun: Taith y DU o *Sister Act*. Llun gan Tristram Kenton. ©

.....
 Mae Richard Rodgers ac Oscar Hammerstein yn ddeuawd cyfansoddi caneuon enwog a oedd yn ysgrifennu yn bennaf yn yr 1940au a 1950au. Maen nhw'n adnabyddus am eu cyfraniad i Theatr Gerddorol ar ôl cyfansoddi llu o ganeuon poblogaidd i sioeau cerdd sydd yn dal i gael eu cynhyrchu heddiw.

.....
 'Oscar Wilde the Musical'
 yw'r Sioe Gerdd fwyaf
 byrhoedlog yn hanes.
 Cafodd ei hysgrifennu
 i gofio pen-blwydd
 marwolaeth yr awdur a
 dim ond am un noson
 y cafodd ei pherfformio
 oherwydd gwerthiant
 tocynnau gwael.

Caiff **Sioeau Cerdd Jiwcbocs** neu sioeau cerdd a luniwyd o gwmpas caneuon poblogaidd sydd eisoes wedi'u rhyddhau a'u hysgrifennu neu eu canu, gan amlaf, gan un artist neu grŵp poblogaidd. Er enghraifft, mae *Mamma Mia!* yn defnyddio caneuon poblogaidd y band o Sweden ABBA ac mae *We Will Rock You* gan Ben Elton yn seiliedig ar ganeuon poblogaidd y band Queen.



Llun: Little Star Services (Europe) Limited / Nick Grace Management LTD. ©

Yn ogystal â'r ddwy sioe boblogaidd yma, mae'r Ganolfan wedi croesawu nifer o'r Sioeau Cerdd Jiwcbocs dros y blynyddoedd. Maent yn cynnwys *Saturday Night Fever* (Bee Gees), *Tonight's the Night* (Rod Stewart), a hyd yn oed, *American Idiot* (Green Day). Yn 2007, cafwyd y perfformiad cyntaf o *Never Forget* sy'n seiliedig ar gerddoriaeth Take That.

Yn Sioeau Cerdd Jiwcbocs, caiff y caneuon eu gosod mewn plot dramatig, sef stori hunangofiannol perfformiwr y caneuon gan amlaf. Mewn rhai achosion nid yw'r plot yn troi o gwmpas y grŵp arbennig hwnnw o gwbl, ond yn hytrach yn canolbwyntio ar stori sydd wedi'i llunio'n gain a'i phlethu o amgylch y caneuon.

Mae llwyddiant beirniadol a masnachol sioeau cerdd jiwcbocs wedi bod yn anwastad. Mae rhai, fel Lennon, wedi cau ar ôl cyfnod byr, tra bod eraill gan gynnwys *Mamma Mia!*, *Jersey Boys* a *Buddy* wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Mae addasiadau wedi chwarae rhan fawr wrth greu sawl Sioe Gerdd. Gyda'r tîm creadigol iawn mae'n bosibl trawsnewid unrhyw beth ar gyfer y llwyfan. Fel y sonnir eisoes, mae ffilmiau poblogaidd wedi bod yn fan cychwyn cyffredin.

Gall ffilmiau a ystyriwyd yn Sioeau Gerdd yn barod gael eu trosglwyddo'n llyfn i'r llwyfan a gellir mwynhau caneuon sydd eisoes yn boblogaidd mewn dull newydd. Mae *Hairspray*, *Sister Act* a *Grease* yn enghreifftiau da o hyn. Gall awduron a chynhyrchwyr fod yn greadigol iawn hefyd ac wedi troi ffilmiau poblogaidd nad ydyn nhw'n ffilmiau cerddorol yn theatr gerddorol. Mae sioeau fel *Dirty Dancing*, *Legally Blonde* a *Flashdance* yn rhai enghreifftiau o hyn ac maen nhw wedi cael cymorth oherwydd eu traciau sain ffilm adnabyddus.

Mae defnyddio pypedau a gwisgoedd wedi helpu i addasu ffilmiau cerddorol wedi'u hanimeiddio ar gyfer y llwyfan. Ar y cyfan maen nhw wedi bod yn effeithiol iawn ac mae cynyrchiadau fel *The Lion King* a *Shrek The Musical* wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus.

Gweithgaredd - Addasiad: CA 3/ 4

Cysylltiadau gyda Saesneg ac ABCh, datblygu meddwl a chyfathrebu.

Rydyn ni wedi edrych ar pa mor boblogaidd yw addasu llyfrau, ffilmiau a cherddoriaeth i sioeau llwyfan byw. Ydych chi'n gallu meddwl am stori a fyddai'n trosglwyddo'n dda i theatr gerddorol?

Ysgrifennwch gynnig fel pe byddech yn gwerthu'r syniad i gynhyrchydd enwog. Rhaid i chi feddwl am y rheswm pam y byddai'r stori'n addasu'n dda a pha steil o sioe gerdd y byddai'n datblygu iddi. Beth yw'r digwyddiadau allweddol yn y stori a phwy yw'r prif gymeriadau? Hefyd meddyliwch am y gynulleidfa er mwyn i chi wybod sut i'w marchnata a gallai helpu eich cynnig pe bai gennych rhai caneuon yn barod gan mai cerddoriaeth yw un o'r pethau sydd yn denu fwyaf.

.....

Mae Andrew Lloyd Webber yn adnabyddus yn bennaf fel cyfansoddwr ond mae ganddo gryn dipyn o gredydau cynhyrchu. Mae hefyd yn wyneb cyfarwydd ar y teledu gyda'i sioeau teledu castio sy'n gyfrifol am roi cychwyn i yrfa sawl perfformiwr sioeau cerdd poblogaidd.

.....

Yn yr 1980au a'r 1990au gwelwyd dylanwad "sioeau cerdd mawr" neu "operâu pop" Ewrop, a oedd fel arfer yn cynnwys sgôr a dylanwadwyd gan ganu pop gyda chast a setiau mawr. Roeddent yn cael eu hadnabod am eu heffeithiau nodedig cymaint ag unrhyw beth arall yn y cynhyrchiad – siandelier yn disgyn (yn *The Phantom of the Opera*), hofrennydd yn glanio ar y llwyfan yn *Miss Saigon*) a menyw yn hedfan uwchben y gynulleidfa (yn *Mary Poppins*). Roedd pris uchel ar y cyflwyniadau technegol hyn, ond parhaodd y sioeau cerdd mawr gorau am ddegawdau.

Roedd llawer yn seiliedig ar nofelau neu weithiau llenyddol eraill. Ymhlith ysgrifenyddyr y sioeau cerdd mawr pwysicaf roedd y tîm o Ffrainc sef Claude-Michel Schönberg ac Alain Boublil, a oedd yn gyfrifol am *Les Misérables*, sef sioe gerdd hynaf ryngwladol sydd wedi para fwyaf erioed.

Les Misérables oedd y sioe gerdd fawr gyntaf â rhinwedd dramatig gwirioneddol ac mae hi wedi dathlu ei phen-blwydd yn 25 oed. Mae cynulleidfaoedd yn gwirioni ar y caneuon epig a'r stori afaelgar.

Cafodd y cyfansoddwr Prydeinig, Andrew Lloyd Webber, lwyddiant eithriadol tebyg gydag *Evita*, sy'n seiliedig ar fywyd Eva Perón o'r Ariannin, a *Cats*. Mae sioeau cerdd llwyddiannus eraill o waith Lloyd Webber yn cynnwys *Starlight Express* a gaiff ei pherfformio ar sglefolwyr, *The Phantom of the Opera* a *Sunset Boulevard* (o'r clasur o ffilm o'r un enw). Cafodd nifer o'r gweithiau hyn eu llwyfannu (neu eu llwyfannu o hyd) am ddegawdau yn Efrog Newydd ac yn Llundain.

Yn ystod y 1990au gwelwyd dylanwad corfforaethau mawr ar gynhyrchu sioeau cerdd. Y pwysicaf o'r rhain fu The Walt Disney Company, a ddechreuodd addasu rhai o'i ffilmiau cerdd wedi'u hanimeiddio ar gyfer y llwyfan, yn cynnwys *Beauty and the Beast* a *The Lion King*.



Llun: *Les Misérables*. Llun gan Michael le Poer Trench. ©

Gweithgaredd – Sioe Gerdd 5 Munud: CA2

Cerddoriaeth ac ABCh, datblygu meddwl a chyfathrebu. Dyma ymarfer drama da iawn hefyd.

Gweithiwrch mewn grŵp i greu sioe gerdd 5 munud. Gallwch ddefnyddio un sy'n adnabyddus i chi neu gallwch fod yn greadigol a chreu un wreiddiol. Meddyliwch yn ofalus am y stori a meddyliwch am y wybodaeth sydd bwysicaf i'r gynulleidfa fel eu bod yn deall beth sy'n digwydd. Fe fyddwch eisiau sicrhau ei bod yn gweithio fel stori felly rhaid cael dechrau, canol a diwedd iddi. Hefyd pa gymeriadau sydd angen eu cadw? Cofiwch hefyd beth yr ydym wedi'i ddweud am ganeuon yn gynharach yn y pecyn; maen nhw'n gallu creu golygfa yn gyflym neu yn gallu rhoi llawer o wybodaeth am gymeriad felly defnyddiwch ganeuon i'ch helpu chi.

The Phantom of the Opera

‘Ym mhell islaw mawredd a harddwch Tŷ Opera Paris, mae’r Phantom yn llechu yn y tywyllwch. Gyda chywilydd am ei wedd corfforol ac yn cael ei ofni gan bawb, mae ei gariad tuag at ei protégé hardd Christine Daaé mor gryf fel na all hyd yn oed ei chalon hi ei wrthsefyll.’*

Mae cynhyrchiad newydd trawiadol Cameron Mackintosh o The Phantom of the Opera Andrew Lloyd Webber yng Nghanolfan Mileniwm Cymru dros Nadolig 2012.

Mae’r sioe gerdd yn seiliedig ar y nofel *Le Fantôme de l’Opéra* gan yr awdur Ffrengig ecsentrig, Gaston Leroux, ac fe’i chyhoeddwyd ym 1911. Roedd Leroux yn caru’r natur theatrig ac mae wedi dal llawer o’r angerdd a’r wybodaeth theatrig yn y stori yma.

Cyn cyhoeddi *Le Fantôme de l’Opéra*, doedd Leroux ddim wedi bod yn ddramodydd llwyddiannus iawn ac roedd yn astudio’r Gyfraith. Wnaeth ei gyhoeddiad ddim rhoi llawer mwy o lwyddiant iddo fel nofelydd, doedd yr adolygiadau ddim yn dda iawn a doedd y gwerthiant ddim yn uchel iawn chwaith.

Un o’r unig bethau i ddeillio o nofel Leroux oedd ei bod wedi cael ei throï’n gyfres ar gyfer papur newydd a dyma a dynnodd sylw Universal Pictures a dal eu diddordeb.

Cafodd *The Phantom of the Opera* Universal Pictures ei sgrinio gyntaf ym 1925 ac ers hynny mae’r stori wedi tyfu a thyfu. Heddiw, mae pobl mwy na thebyg yn dod ar draws y stori yn ffurf y fersiwn cerddorol a gyfansoddwyd gan Andrew Lloyd Webber sy’n enwog am ei gynhyrchiad trawiadol.

Mae The Phantom of the Opera yn sioe gerdd am y theatr a’i holl gyfrinachau, mawredd, natur ysblennydd a gwaith caled. Mae stori’r Phantom yn ein tywys y tu ôl i’r llenni, y tu ôl i ‘fwgwd’ y theatr.

Ar ôl prolog *The Phantom of the Opera*, rydyn ni’n gweld byddin o gaethweision dawnsio ac eliffant yn codi ei ben pwerus, yn cludo’r rhyfelwr Hannibal. Ond arhoswch! Mae llais yn gweiddi yn cywiro ynganiad Hannibal o’r gair ‘Rhufain’. Mae’r eliffant yn troi gan ddatgelu dau weithiwr llwyfan yn rheoli ei symudiadau. Yn sydyn, rydyn ni mewn sefyllfa anghyffredin i nifer o bobl: yn awyrgylch prysur ymarferiad. Mae stori *The Phantom of the Opera* yn rhoi darlun inni o sut y mae hud theatr yn cael ei greu, ond mae’r stori y tu ôl i’r sioe gerdd yn antur o benderfyniad, talent a risg y byddai Leroux ei hun yn eiddigeddus ohoni.*

“Mae The Phantom of the Opera yn trafod rhywbeth cwbl sylfaenol. Mae stori dyn hyll sydd mewn cariad â merch brydferth yn mynd yn ôl i fytholeg. Mae gan bawb ddiddordeb yn y syniad a dyna pam y mae’r sioe wedi parhau mor boblogaidd.” Maria Björnson (Dylunydd Set a Gwisgoedd y cynhyrchiad gwreiddiol).

* Daw’r wybodaeth yn yr erthygl yma o wefan swyddogol *The Phantom of the Opera*, thephantomoftheopera.com. Mae canllaw astudio hefyd ar gael ar y wefan yma os hoffech ddarllen mwy.

Mae sioeau cerdd ar daith yn amrywio mewn maint. Mae angen tua 3 lori ar gyfer holl setiau ac offer sioe gerdd bach sy'n perfformio am ychydig o ddyddiau yn unig. Ond, gall y sioeau cerdd mawr sy'n aros mewn theatr am wythnosau ar y tro ddefnyddio hyd at 19 lori!

Cameron Mackintosh yw un o'r cynhyrchwyr mwyaf adnabyddus heddiw; mae wedi cynhyrchu tua 40 o sioeau cerdd gwahanol ac mae'n berchen ar saith theatr yn West End Llundain.

Y Cyfansoddwr: Rhoi Llais i'r Mwgwd

Ar fore oer ym mis Chwefror 1984, derbyniodd y cynhyrchydd Cameron Mackintosh alwad ffôn tra roedd yn y bath. Andrew Lloyd Webber, cyfansoddwr *Jesus Christ Superstar*, *Cats*, *Evita*, *Song and Dance a Starlight Express*, yr oedd wedi cyd-gynhyrchu *Cats* a *Song and Dance* gydag ef, oedd ar y ffôn. Bu'n alwad dyngedfennol. Yn ddiweddarach dywedodd Mackintosh, "Ei eiriau cyntaf oedd, 'Pe buaswn i'n dweud *The Phantom of the Opera*, beth fyddet ti'n ei ddweud?' Hyd yn oed yn fy nghyflwr gwlyb roeddwn yn sylweddoli bod Andrew unwaith eto wedi meddwl am syniad da. Fe wnaethom wyllo copïau o ffilm wreiddiol Lon Chaney a fersiwn diweddarach Claude Raines. Er ein bod wedi mwynhau, wnaeth yr un ohonom weiddi Eureka! Ac felly fe wnaethom benderfynu chwilio am gopi o nofel wreiddiol Leroux."

Fe wnaeth stori Leroux gyffroi'r ddau (roedd y nofel bellach allan o brint a darganfu Lloyd Webber gopi ohoni mewn siop lyfrau ail law yn Efrog Newydd, ac fe wnaeth Mackintosh ddarganfod copi yn ngarej ei fodryb). Roedd hon yn fwy na stori arswyd syml, roedd yn stori dywyll torcalonnus o gariad digydnabod. Dywedodd y datganiad i'r wasg cychwynnol ym 1984, "Bydd y sgôr ar gyfer *The Phantom of the Opera* yn cynnwys gwaith gwreiddiol a gwaith sydd eisoes yn bodoli." Y syniad gwreiddiol oedd defnyddio gwaith clasurol ac operatig enwog yn bennaf ar gyfer y sgôr. Ond wrth i Lloyd Webber aildarllen nofel Leroux, daeth yn fwy a mwy argyhoeddedig y dylai ysgrifennu'r gerddoriaeth. Yn nyheadau'r Phantom roedd Lloyd Webber yn teimlo ei angen ei hun i gyfansoddi sgôr rhamantus. Gyda'r awdur geiriau Richard Stilgoe, fe wnaethon nhw gyflwyno drafft o act gyntaf y sioe mewn gŵyl gerdd breifat yng nghartref Lloyd Webber yn haf 1985.

Unwaith yr oedd y sgôr a'r sript ar y gweill roedd yn amser cynnwys gweddill y tîm cynhyrchu. Recriwtiodd Cameron Mackintosh dîm profiadol a medrus yn cynnwys dylunydd set a gwisgoedd, dylunydd goleuo a dylunydd sain, ynghyd â choreograffydd ac actorion.

Mae'r cynhyrchiad yma o *The Phantom of the Opera* yn datlu ei ben-blwydd yn 25 oed nawr. Mae'n stori ddramatig sy'n llwyddo i ddenu cynulleidfa amrywiol iawn a gyda'i set a'i gwisgoedd ysblennydd, ynghyd â'i sgôr dwys, mae'n debygol o barhau i fod mor boblogaidd am flynyddoedd i ddod.



Llun: Taith y DU o *The Phantom of the Opera*. ©

Daw'r wybodaeth yn yr erthygl yma o wefan swyddogol *The Phantom of the Opera*, thephantomoftheopera.com.

Dros yr wyth blynedd diwethaf, mae'r Ganolfan wedi bod yn gartref i rai o'r sioeau cerdd mwyaf i ddod o'r West End; felly beth am edrych ar rywfaint o'r talent cynhenid sydd wedi mynd â Chymru i'r West End.

Dechreuwn gydag Ivor Novello, a anwyd yng Nghaerdydd. Roedd yn un o ddiddanwyr mwyaf poblogaidd Prydain ar ddechrau'r 20fed ganrif, a hynny'n bennaf am ei gyfraniad sylweddol i gerddoriaeth a sioeau cerdd. Un arall o sêr y llwyfan o Gymru oedd Harry Secombe o ardal St Thomas yn Abertawe. Oherwydd ei lais pwerus, bu'n ymddangos mewn sawl sioe gerdd, yn cynnwys *Pickwick*, a daeth y gân "If I Ruled the World" o'r sioe honno yn arwydd-dôn iddo yn ddiweddarach.

Drwy gydol eu gyrfaoedd mae Aled Jones a John Owen-Jones wedi cael llwyddiannau mawr ar y llwyfan; mae Aled wedi ymddangos yn *Joseph and his Technicolour Dreamcoat* a *Chitty Chitty Bang Bang* tra bod perfformiad John Owen-Jones fel Jean Valjean wedi syfrdanu cynulleidfaoedd yn ystod taith ben-blwydd *Les Misérables* yn 25. Roedd y cynhyrchiad hefyd yn un o uchafbwyntiau dathliadau Pen-blwydd y Ganolfan yn 5 oed yn 2009.

Cafodd Connie Fisher ei magu yn Hwlfordd a sicrhodd ei llwyddiant yng nghystadleuaeth dalent y BBC *How Do You Solve a Problem like Maria?* le iddi fel Maria yn *The Sound of Music* a daeth Connie yn ôl i'r Ganolfan yn *Wonderful Town*.

Ganwyd Peter Karrie ym Mro Morgannwg, ac mae'n nodedig yn fyd-eang am y brif rôl yn *The Phantom of the Opera*, Andrew Lloyd Webber. Mae hefyd wedi cael llwyddiant ysgubol yn *Les Misérables*, *Chess*, *Annie* ac *Oliver!*, ymhlith eraill.

Yn olaf ar ein rhestr mae Jonathon Pryce a Daniel Evans. Enillodd Pryce, a anwyd yn Nhreffynnon, wobwr Tony am ei berfformiad yn rôl y Peiriannydd yn *Miss Saigon* tra bod Daniel Evans a enillodd wobwr Richard Burton yn ddyn ifanc yn yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ennill Gwobr Laurence Olivier ddwywaith; un am ei berfformiad yn *Merrily We Roll Along*, a'r llall am *Sunday in the Park with George*.

Mae'n hyfryd gweld faint o sêr o Gymru sydd wedi mynd â Chymru i'r West End a thu hwnt. Mae llawer mwy y gallem fod wedi'u cynnwys ar y rhestr ond byddai angen wal fwy arnom i'w cynnwys i gyd. Gan fod sioeau cerdd yn hwb mor fawr i'r economi fyd-eang, mae'n wych gweld Cymry ynghanol y llwyddiant hwnnw.



Llun: *The Sound of Music* (David Ian Productions Ltd). ©

Cyfweliad byr gyda
Sharon Calcutt
Rheolwr Llwyfan West End
Cyfieithiad o'r cyfweliad

Dywedwch wrthyn ni am eich swydd.

Rwyf yn rheolwr llwyfan, sy'n golygu fy mod yn gorfod sicrhau bod popeth a phawb yn y lle cywir, ar yr adeg cywir, gyda'r propiau cywir!

Sut ddaethoch chi'n rhan o fyd theatr?

Yn wreiddiol fe wnes hyfforddiant fel cerddor ac rwyf wedi bod yn rhan o fyd theatr erioed. Pan gefais anaf a methu chwarae offeryn bellach dyna'r cam rhesymegol nesaf. Roedd yn teimlo fel y lle cywir i mi yn y byd. Roeddwn yn gallu gwneud y ddau beth roeddwn i yn eu caru, a chael fy nhalu am hynny.

Pa ran o'ch gwaith ydych chi'n ei fwynhau fwyaf, a pham?

Rwy'n mwynhau gallu cyflawni'r amhosibl. Mae rheolaeth llwyfan mewn sioeau cerdd yn enwedig dan bwysau mawr i gyflenwi canlyniadau eithriadol. Rydych chi'n mynd i noson y wasg ac mae'r gân agoriadol yn rhedeg yn llyfn oherwydd chi a'ch tîm ac mae gennych lwyddiant! Mae'n deimlad bendigedig.

O weithio yn y diwydiant, pam ydych chi'n meddwl bod Theatr Gerddorol yn rhan mor llwyddiannus o ddiwylliant poblogaidd?

Os oes unrhyw beth sy'n ei wneud yn boblogaidd, y peth hwnnw yw bod theatr gerddorol yn darparu rhywbeth i bawb ac mae'n cael ei gyflwyno mewn ffordd na all pobl ond ei fwynhau. Mewn bywyd sydd yn mynd yn anos ac yn fwy dienw i gerdded drwyddo, mae'r sioe gerdd yn cynnig dwy awr a hanner o ddihangfa sy'n gallu eich trosglwyddo i fyd arall a bydd cân dda ac ychydig o liw yn aros gyda chi am weddill eich bywyd

Gweithgaredd – Creu'r Olygfa: CA 2/ 3 & 4

Celf a Dylunio ac ABCh datblygu meddwl

Dewiswch stori sy'n adnabyddus i chi a meddyliwch am ddarn ohoni yn unig, un olygfa. Dychmygwch hi fel Sioe Gerdd fawr a dyluniwch y set a'r goleuo ar gyfer yr olygfa honno. Lle byddai'n cael ei gosod? A fyddai unrhyw effeithiau arbennig? A fyddai'r goleuo yn dywyll ac yn llonydd neu yn lliwgar ac yn symud? Cofiwch nad oes llawer o gyfyngiadau i Theatr Gerddorol ac felly gallwch fod yn greadigol iawn.